




Doethineb Gwledig Mae ffyrdd newydd o weithio yn arwain at bartneriaethau newydd: Stori o Gymru



Mae Doethineb Gwledig yn brosiect ar gyfer pobl hŷn yn yr Alban a Chymru. Ei nod yw ceisio lleihau ynysu cymdeithasol ac unigrwydd gyda gweithgareddau datblygu cymunedol a gwirfoddoli a arweinir gan bobl hŷn yn yr ardaloedd hyn.

Mae Doethineb Gwledig wedi gweithio ledled Cymru, yng Nghoed-llai a Phontblyddyn, Treffynnon, Aberdaugleddau a Phenrhyn Dale. Rhwng 2017 a mis Chwefror 2020, bu'r Gweithwyr Datblygu yng Nghymru yn gweithio o fewn eu cymunedau ac yn cysylltu â'r naill a'r llall a'u cyd-weithwyr yn yr Alban pan roedd hi'n bosibl gwneud hynny. Ond fel sawl peth arall, roedd angen teithio am filltiroedd i gwrdd wyneb yn wyneb, yn hytrach nag ar-lein.



Cysylltu yn ystod COVID-19

Pan ddaeth COVID-19 i daro Prydain ym mis Mawrth 2020, daeth gwaith Doethineb Gwledig i ben dros nos, a newidiodd y ffordd roedd gweithwyr yn cysylltu gyda'i gilydd yn syth. Roedd safleoedd bellach yn cysylltu'n ddigidol, a defnyddiwyd Teams a Zoom i gynnal cyfarfodydd rheolaidd er mwyn cynllunio, rhannu ac edrych ar beth oedd yn digwydd ym mhob rhanbarth.



Yn sgil y newid hwn, roedd timau Doethineb Gwledig yn y ddwy genedl yn gallu cysylltu'n well. Daeth yn 'normal' i gwrdd ar-lein a sefydlwyd cyfres o 'Ysgogwyr Ymddiddan Ar-lein'. Roedd y rhain yn rhwydweithiau newydd ac annibynnol o bobl wedi'u cysylltu ar-lein drwy ddiddordeb cyffredin. Ymhlith y pynciau yr ymdriniwyd â nhw yn y rhwydweithiau, roedd:



Lechyd meddwl ymhlith dynion. Roedd Men2Men, grŵp iechyd meddwl a chymdeithasol newydd i ddynion yn Sir Benfro, yn westeion, a rhannwyd syniadau gyda Men's Shed o Dde Lanarkshire.



Polisi pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig. Cafodd Helena Herklots, Comisiynydd Cymru dros Bobl Hŷn, dreulio amser gyda chymysgedd o bobl â diddordeb o'r Alban.



Prosiect cymunedol, Celivery, mewn ardaloedd gwledig, lle cafwyd trafodaeth agored am gydweithio ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

Partneriaethau eraill

Yn yr un modd â'r rhwydweithiau newydd hyn, dechreuodd Weithwyr Datblygu yn y ddwy genedl gysylltu â rhwydweithiau ehangach a mwy amrywiol nag o'r blaen am nad oedd angen teithio, a gan fod cyfarfodydd a thrafodaethau'n cael eu cynnal ar-lein. Datblygodd hyn ffordd organig o weithio yn Sir Benfro, a phroffil cryf yn y sir yn y pen draw.

Wrth i amser fynd yn ei flaen, dechreuodd Rachel, Gweithiwr Datblygu yng ngorllewin Cymru, sgwrsio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, y Cyngor Sir a sefydliadau allweddol y 3ydd sector ynghylch sut allai hi weithio gyda nhw yn Sir Benfro. Yn dilyn hyn, ffurfiwyd partneriaeth newydd lle ymunodd Volunteering Matters â phartneriaeth PIVOT yn yr ardal, gan fynd ymlaen i chwarae rôl allweddol yn natblygiad Hwb Sir Benfro, a ffurfiwyd yn wreiddiol i ymateb i COVID.

Mae PIVOT, neu Dîm Sefydliadau Gwirfoddol Canolradd Sir Benfro, yn darparu cymorth cymunedol gwirfoddol i helpu i atal pobl rhag mynd i'r ysbyty yn ddiangen neu gymorth i bobl sy'n gadael yr ysbyty. Ffurfiwyd y bartneriaeth rhwng y British Red Cross, Cymdeithasol Mudiadau Cludiant Cymunedol Sir Benfro (PACTO), y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol, Gofal a Thrwsio, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) a nawr Doethineb Gwledig/Volunteering Matters Cymru.



Ar ôl i bartneriaethau gael eu sefydlu a dechrau gweithio'n llwyddiannus yn Sir Benfro, sefydlwyd cyfres 'ysgogwyr ymddiddan ar-lein' ar gyfer grŵp o unigolyn awyddus ac fe'i gwahoddwyd o bob cwr o Gymru a'r Alban ym mis Medi 2021. Fe ysgogodd y drafodaeth gyntaf am PIVOT lawer o ddiddordeb, a chynhaliwyd gweminar agored ddechrau fis Tachwedd 2021 ynghylch y mater ehangach o ffurfio partneriaethau traws-sector ehangach. Cymerodd dros 30 o bobl ran yn y weminar, yn cynnwys GIG yr Alban a sawl ardal awdurdod lleol o'r ddwy genedl oedd wedi clywed am waith PIVOT, beth sydd ei angen i gael partneriaeth lwyddiannus, yn ogystal â beth ellir ei ddysgu a'i fabwysiadu mewn rhanbarthau eraill sydd â diddordeb yn y model.

Gyda gobaith, bydd rhannu yn y modd hwn yn arwain at waddol parhaol gan Ddoethineb Gwledig o fewn y ddwy genedl, na fyddai wedi bod yn bosibl pe na fyddai'r pandemig wedi ein gorfodi i weithio ar-lein er mwyn cysylltu cymunedau, gwasanaethau a sefydliadau sy'n gysylltiedig â nodau'r prosiect.

Mae rhagor o Ysgogwyr Ymddiddan ar y gweill ar gyfer pan na fydd Doethineb Gwledig yn cael ei ariannu ymhellach, i ddod i'r arfer â rhannu arfer da.

Yn ystod cam cyntaf Doethineb Gwledig, roedd y Gweithwyr Datblygu wedi gweithio'n agos â phobl hŷn a'u cymunedau i adnabod y prif broblemau a mynd i'r afael â nhw, cyflawni canlyniadau'r prosiect a chreu newid cynaliadwy. Yng Ngham 2, gwnaeth y Gweithwyr Datblygu gyflwyno Doethineb Gwledig i gymunedau gwledig, newydd yng Nghymru a'r Alban, gan roi'r hyn a ddysgwyd o Gam 1 ar waith i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chyflawni'r un canlyniadau prosiect cyffredinol.

Yr Alban: Cam 1 Eaglesham, Ucheldir Swydd Perth, Gogledd Angus
Cam 2 Moray Gororau'r Alban

Cymru: Cam 1 Coed-llai a Phontblyddyn, Aberdaugleddau
Cam 2 Treffynnon a Phenrhyn Dale

Pwynt Cyswllt Gwerthuso

Dr Victoria Mason-Angelow
Ymgynghorydd Ymchwil a Gwerthuso
Victoria.Mason-Angelow@ndti.org.uk

Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer
Cynhwysiant (NDTi)
www.ndti.org.uk

Adnoddau

Mae mwy o wybodaeth ac adnoddau
ar gael yma:
www.ruralwisdom.org